# Cynhadledd Ymchwil 2026

25 – 26 Mehefin 2026

Y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth

## Croeso i Gynhadledd Ymchwil y Coleg Cymraeg

Cynhelir y Gynhadledd Ymchwil ar 25 – 26 Mehefin 2026 yn ystafell y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol. Caiff y Gynhadledd hefyd ei ffrydio ar sianel YouTube y Coleg Cymraeg.

Cyflwynir 11 papur dros y deuddydd, a bydd cyfle i holi cwestiynau yn dilyn pob cyflwyniad. Mae rhagor o wybodaeth am y cyflwyniadau yn y rhaglen hon.

Bydd posteri ymchwil yn cael eu harddangos yn y Llyfrgell Genedlaethol ar y dydd Gwener, a bydd copïau hefyd ar gael ar-lein. Gwobrwyir y poster gorau yn ystod y gynhadledd.

Cofrestrwch i ymuno â'r gynhadledd drwy'r ddolen hon.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno.

# Rhaglen

## Dydd Iau, 25 Mehefin

12:30 – 13:00: Cyrraedd, croeso a phaned

**13:00 – 16:00: Hyfforddiant ar Gyhoeddi Academaidd**

- Cyflwyniad i *Gwerddon* – Dr Hywel Griffiths
- Cyflwyniad i Wasg Prifysgol Cymru – Dr Llion Wigley
- Panel trafod: Yr Athro Huw Morgan (cadeirio), Dr Hannah Sams, Dr Sam Parry, Dr Rhiannon Marks, Dr Geraint Palmer-Liyu

**16:15 – 17:50 Sesiwn Papurau Ymchwil 1**

- **Jonathan Davies**: 'I don't feel like any of these learners will count towards a million speakers': Profiadau athrawon o addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
- **Emma Grigorian**: Beth sy'n gwneud sgwrs yn 'llwyddiannus' i ddysgwyr ieithoedd? Cymhariaeth o leferydd a phrofiadau dysgu rhithiol ac wyneb yn wyneb ymhlith dysgwyr Cymraeg a Ffrangeg Quebec
- **Anne Uruska:** O lygad y ffynnon: canfyddiadau cyfranogwyr

18:00: Seminar y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Gweler rhagor o wybodaeth ar y dudalen hon.

19:30: Swper - Y Llew Du

## Dydd Gwener, 26 Mehefin

09:30 – 10:00: Cyrraedd, cofrestru, paned

10:00 – 10:15: Gair o groeso

10:15 – 11:15: Sesiwn Papurau Ymchwil 2

- **Guto Rhys Hughes:** A yw datganoli cyllidol yn gysylltiedig â thwf economaidd yn y Deyrnas Unedig?
- **Tomos Owen:** Rheoleiddio Corff y Dyn Cristnogol: Sut mae 'corff-lunio', diwylliant ffitrwydd ac estheteg yn gweithredu fel ffurfiau cyfoes o 'Gristnogaeth Gyhyrol' ddisgyblaethol

11:15 – 11:30: Egwyl a phaned

11:30 – 13:00: Sesiwn Papurau Ymchwil 3. Cadeirydd: Dr Awel Vaughan-Evans

- **Maisie Edwards**: Hawl i farw yn y Gymraeg
- **Cerys Reynolds**: Datblygu adnodd mesur a dull gweithredu newydd o hunanasesu lles pobl ifanc yn eu harddegau (14-16 oed)
- **Ellis Evan Jones**: Canfod effaith ïonau metel trwm ar ensym sy'n gysylltiedig â Chlefydau Storio Lysosomal prin

13:00 – 14:30: Cinio a phosteri ymchwil (Ystafell y Cyngor)

14:30 – 16:00: Sesiwn Papurau Ymchwil 4

- **Ifan Erwyn Pleming**: Cunard, White Star, y Gymraeg a'r Eisteddfod Genedlaethol: Llygad-wasanaeth yn unig?
- **Jonathan Ervine**: Hunaniaeth Geltaidd ym mhêl-droed Llydaw: tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng Llydaw a Chymru
- **Beca Owen**: Bywiogrwydd Ieithyddol yn yr oes ddigidol: rôl deallusrwydd artiffisial ac addysg

16:00: Canlyniad y gystadleuaeth posteri ymchwil, cloi'r Gynhadledd a phaned.

# Bywgraffiadau a chrynodebau

## Jonathan Davies

**Cymraeg ac Addysg, Prifysgol Caerdydd** | LinkedIn | Instagram | Podlediad

Mae Jonathan yn astudio PhD yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, gan archwilio addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae ei waith yn adeiladu ar ei ddiddordeb mewn caffael iaith ac addysgeg amlieithog. Cwblhaodd radd Meistr mewn Cerddoriaeth yng KCL, ac yna TAR yn UCL, lle y bu'n ymchwilio i rôl cerddoriaeth mewn datblygiad ail iaith i blant sy’n siarad Saesneg fel ail iaith. Yn dilyn hyn, bu'n gweithio fel athro cynradd a thiwtor Cymraeg i oedolion. Jonathan hefyd yw crëwr a chyflwynydd ei bodlediad, Ymchwil ar y Gweill, lle y mae'n cyfweld ag academyddion Cymraeg er mwyn iddynt gael rhannu eu hymchwil.

**‘I don’t feel like any of these learners will count towards a million speakers’: Profiadau Athrawon o Addysgu’r Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.**

Mae’r Ddeddf y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) (2025) arfaethedig yn gobeithio ymestyn yr amser y mae plant yn ei dreulio’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, adroddwyd yn flaenorol nad yw’r dulliau presennol o addysgu’r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cefnogi plant yn ddigonol i gaffael yr iaith (Davies 2013). Ychydig o ymchwil sydd wedi'i chynnal ar y Gymraeg yn ystafell ddosbarth yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, lle y mae gan lawer o’r athrawon hyfedredd cyfyngedig yn y Gymraeg, ac yn enwedig i brofiadau athrawon sy’n cyflwyno’r gwersi.

Mae'r papur hwn yn archwilio sut mae'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth cyfrwng Saesneg yn y sector cynradd ac yn archwilio agweddau'r athrawon tuag ati. Mae'r papur hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Sut mae athrawon ysgolion cynradd yn gweld addysgu'r Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth cyfrwng Saesneg?
2. Sut mae teimladau athrawon ysgolion cynradd tuag at y Gymraeg yn cymharu â'u profiadau o addysgu'r Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth cyfrwng Saesneg?

Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws gydag athrawon ysgolion cynradd ar draws pedair ysgol yn ne Cymru. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar brofiadau athrawon yn y gorffennol o addysgu'r iaith ac fe'u gwahoddwyd i fyfyrio ar eu hyfforddiant blaenorol, eu hagwedd tuag at yr iaith, a'u canfyddiadau o'u rôl o fewn y system addysg. Dadansoddwyd y data hyn gan ddefnyddio dadansoddiad thematig myfyriol. Mae'r papur hwn yn cyflwyno tair thema allweddol a gododd yn y data a bydd yn trafod (1) diffyg cyfleoedd hyfforddi ystyrlon; (2) effaith dysgu blaenorol plant ar addysgu dilynol; a (3) tensiynau rhwng hunaniaeth bersonol a'r iaith Gymraeg. Byddaf yn trafod y canlyniadau hyn yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru (2020), Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) (2025) a Chymraeg 2050 (2017).

## Emma Grigorian

**Seicoleg, Prifysgol Met Caerdydd** | e.grigorian@outlook.cardiffmet.ac.uk | Gwefan | LinkedIn

Mae Emma Grigorian yn ymchwilydd PhD yn ei hail flwyddyn ym maes Seicoleg Gymhwysol ym Mhrifysgol Met Caerdydd, dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae ei hymchwil yn archwilio meicrofynegiadau a dynameg wybyddol, amserol ac ymddygiadol mewn rhyngweithiadau dysgwr-tiwtor, wyneb yn wyneb ac yn rhithiol. Mae hi wedi darlithio, cynnal a chyflwyno ei hymchwil yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan gynnwys cyfnewid ymchwil ddiweddar ym Mhrifysgol McGill, Montreal, Canada. Yn ogystal â'i PhD, mae hi'n gweithio fel tiwtor cyswllt mewn Seicoleg Gymhwysol, ac yn y flwyddyn ddiwethaf bu'n gynorthwyydd ymchwil ar brosiect i safoni profion dyslecsia cyfrwng-Cymraeg.

**Beth sy'n gwneud sgwrs yn 'llwyddiannus' i ddysgwyr ieithoedd? Cymhariaeth o leferydd a phrofiadau dysgu rhithiol ac wyneb yn wyneb ymhlith dysgwyr Cymraeg a Ffrangeg Quebec**

Newidiodd y symud i addysg ar-lein yn ystod pandemig COVID-19 dirwedd dysgu ieithoedd ledled y byd. Gyda phwyslais cynyddol ar hygyrchedd a lleihau costau, parha llawer o ddysgwyr ieithoedd i ddibynnu ar ddysgu ar-lein sawl blwyddyn yn ddiweddarach. Yng Nghymru, er enghraifft, arsylwodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mai dysgu'n rhithiol oedd y dull mwyaf poblogaidd dros dair blynedd yn olynol (2026), tra yn Quebec, Canada, mae dysgwyr yn troi fwyfwy at ddarpariaeth ar-lein oherwydd capiau cyllido'r llywodraeth daleithiol sy'n cyfyngu ar fynediad at ddosbarthiadau wyneb yn wyneb (Cabera 2024).

Dengys ymchwil bod yr oediad trosglwyddo mewn rhyngweithiadau rhithiol yn amharu ar lif y sgwrs gan arwain at flinder, cyswllt cymdeithasol gwan ac ansicrwydd rhyngweithiol (Boland et al. 2022, Templeton et. al. 2022). O ystyried bod rhugldder yn un o'r prif nodau mewn dosbarthiadau ieithoedd, gallai hyn gael goblygiadau ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu'n rhithiol o ran hunanhyder a llwyddiant cyfathrebol canfyddedig sy'n allweddol ar gyfer datblygiad cymhwysedd ieithyddol (Rhys a Smith 2022).

Cyflwyna'r papur hwn astudiaeth dulliau cymysg sy'n cymharu 'llwyddiant' yn yr ystafell ddosbarth Cymraeg a Ffrangeg Quebec rhithiol ac wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cynnwys dau arbrawf rheoledig sy'n archwilio dynameg cywirdeb a chanfyddiadau o lwyddiant mewn rhyngweithiadau tiwtor-dysgwr wyneb yn wyneb a rhithiol ynghyd â grwpiau ffocws ar gyfer dealltwriaeth ddyfnach. Dengys yr arbrofion bod lleferydd y dysgwyr yn fwy cywir yn rhithiol nac wyneb yn wyneb ond eu bod yn lefelau is o lwyddiant canfyddedig. Awgryma hyn yr hwylusa'r amser ychwanegol yn sgil yr oediad trosglwyddo mewn rhyngweithiadau rhithiol leferydd mwy cywir, tra bod yr aflonyddwch i lif y sgwrs yn tanseilio hyder. Serch hynny, datgela'r grwpiau ffocws fod canfyddiadau o 'lwyddiant' yn deillio o'r profiad cymdeithasol, ac mai dim ond weithiau y cânt eu dylanwadu gan y dull cyfathrebu. Trafoda'r papur oblygiadau'r canfyddiadau hyn i addysgeg ieithyddol mewn cyd-destunau dysgu cyfoes.

## Anne Uruska

**Addysg, Prifysgol Aberystwyth** | acu1@aber.ac.uk


Yn diwtor Cymraeg profiadol, mae Anne yn ymchwilio i effeithiau'r Gymraeg fel Ail Iaith ar fywydau cyfranogwyr sydd newydd gwblhau addysg orfodol. Yn benodol, mae ei phrosiect ymchwil yn edrych ar hunanganfyddiad y cyfranogwyr o'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â chasglu eu syniadau am yr hyn sydd wedi bod – neu a fyddai – o help (neu o rwystr) iddyn nhw ac i bobl eraill wrth ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg mwy hyderus. Mae'r dulliau cymysg a ddefnyddiwyd i gasglu'r data yn agor drws i ddechrau deall pa brofiadau a pha fath o gymhelliant sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y cyfranogwyr. Cefnogir yr ymchwil gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth.

### O Lygad y Ffynnon: Canfyddiadau Cyfranogwyr

Mae amcanion strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, Llywodraeth Cymru (2017) ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn hysbys. Yn yr un modd, mae safle'r Gymraeg o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'w weld yn ddiogel.

Ond, er gwaethaf nifer o gynlluniau arloesol:

- ym myd addysg (e.e. Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025)
- ym myd gwaith (e.e. Cymraeg Gwaith (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol)
- ym myd trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd (e.e. gwaith Menter Iaith Môn a Mentrau Iaith eraill)

nid yw'r llwybrau sy'n arwain at gyrraedd y nod yr un mor eglur.

Bwriad y cyflwyniad yw rhoi cipolwg ar brofiadau, cymhelliant a dilyniant ieithyddol dysgwyr Cymraeg rhwng 16 a 20 mlwydd oed. Casglwyd y data oddi wrth fyfyrwyr chweched dosbarth a cholegau addysg bellach mewn tair ardal o Gymru rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024. Defnyddiwyd dulliau cymysg – holiadur, grwpiau ffocws a chyfweliadau – mewn ymgais i ddarganfod canfyddiadau'r

cyfranogwyr eu hunain o'u sefyllfa ieithyddol a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol parthed y Gymraeg yn eu bywydau.

Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â chyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr, rhaid wrth dystiolaeth gadarn, nid yn unig i ffurfio polisïau, ond hefyd i'w diweddaru mewn sefyllfa a all fod yn gyfnewidiol. Mae cael data da a dibynadwy, felly, nid yn unig yn gallu bod o fudd mawr i lunwyr polisïau, ond mae hefyd yn darparu'r union dystiolaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn deall gwir sefyllfa gyfoes yr hyn sydd dan sylw.

Gobeithir y bydd y cyflwyniad hwn, sydd wedi'i seilio ar ddata'r prosiect ymchwil, yn agor cil y drws i ddeall rhai o'r llwyddiannau yn ogystal â rhai o'r cymhlethdodau a ddaw i ran dysgwyr y Gymraeg wrth iddynt wynebu gwneud penderfyniadau pwysig yn yr oedran ôl-addysg-orfodol.

## Guto Rhys Hughes

**Busnes, Prifysgol Bangor** | gth20xct@bangor.ac.uk | LinkedIn

Mae Guto Hughes yn ymchwilydd PhD ym Mhrifysgol Bangor yn Ysgol Fusnes Albert Gubay. Mae ei ymchwil yn astudio bondiau is-sofran a'u manteision posibl i Gymru. Mae ei gefndir academaidd yn cynnwys MSc mewn Rheolaeth a Chyllid o Brifysgol Bangor yn ogystal â BSc mewn Busnes a Rheolaeth Forwrol o Brifysgol John Moores Lerpwl. Cyn cychwyn ar ei waith ymchwil, bu'n gweithio ym maes caffael yn y sector cyhoeddus.

### A yw datganoli cyllidol yn gysylltiedig â thwf economaidd yn y Deyrnas Unedig?

Yn dilyn cytundeb Dydd Gŵyl Dewi yn 2015, rhoddodd Llywodraeth y DU y pŵer i Lywodraeth Cymru gyhoeddi bondiau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Mae'r pwerau hyn ymhlith y rhai diweddaraf a roddwyd i Lywodraeth Cymru, gan gynyddu ei hymreolaeth gyllidol. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio a yw datganoli cyllidol yn gysylltiedig â thwf economaidd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r llenyddiaeth wedi cynhyrchu tystiolaeth gymysg ar y berthynas hon, ac

nid oes unrhyw astudiaeth wedi ei harchwilio yng nghyd-destun y DU. Gan ddefnyddio data panel ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol dros gyfnod o ddeng mlynedd o 2010 i 2019, mae'r model yn dadansoddi tri newidyn cyllidol allweddol: gwariant llywodraeth is-genedlaethol, trethiant is-genedlaethol, a throsglwyddiadau rhynglywodraethol, a'u perthynas â thwf economaidd, wedi'i fesur gan dwf Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen ar lefel leol a rhanbarthol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos cysylltiad cadarnhaol rhwng trosglwyddiadau rhynglywodraethol a thwf economaidd ar lefel leol a rhanbarthol, tra bod y dystiolaeth ar gyfer y berthynas rhwng gwariant a threthiant yn amrywio ar draws gweinyddiaethau datganoledig y DU. Mae'r canlyniadau hyn yn cyfrannu at y ddadl hirhoedlog ynghylch goblygiadau twf datganoli cyllidol, drwy dynnu sylw at bwysigrwydd mecanweithiau cydraddoli cyllidol wrth hwyluso twf economaidd o fewn systemau datganoledig anghymesur.

## Tomos Owen

**Astudiaethau Crefyddol, Prifysgol Bangor** | Tmw25dft@bangor.ac.uk | LinkedIn

Mae Tomos Owen yn ymchwilydd MPhil mewn Athroniaeth ac Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Bangor. Dechreuodd ei yrfa academaidd gan gwblhau gradd BA(Anrh.) mewn Athroniaeth a Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Durham, gan dreulio blwyddyn dramor yng Ngholeg Boston (Boston College) yn UDA. Mae addysg Tomos wedi arwain at ymagwedd a methodoleg ryngddisgyblaethol tuag at ymchwilio crefydd, gwleidyddiaeth a rhyw, gan ddefnyddio elfennau o ddiwinyddiaeth, moeseg gymhwysol a gwyddorau cymdeithasol yn ei waith. Fel person graddedig cenhedlaeth gyntaf, mae Tomos yn diolch i gynlluniau Ehangu Cyfranogiad at Addysg Uwch am y modd y bu iddo fagu hyder yn ei allu i astudio yn y brifysgol. Ym Mhrifysgol Bangor, mae Tomos hefyd yn cyfrannu at Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru fel Swyddog Cefnogi Prosiect Ymchwil. Cyllidir ei brosiect ymchwil yn rhannol gan Ymddiriedolaeth Coleg Sant Luc (St Luke's College Foundation).

**Rheoleiddio Corff y Dyn Cristnogol: Sut mae 'corff-lunio', diwylliant ffitrwydd ac estheteg yn gweithredu fel ffurfiau cyfoes o 'Gristnogaeth Gyhyrol' ddisgyblaethol**

Mae'r papur hwn yn defnyddio seilwaith ddamcaniaethol Foucault er mwyn archwilio sut y mae twf y diwydiant ffitrwydd a chorff-lunio *(bodybuilding)* ar-lein wedi meithrin diwylliant newydd o oruchwylio, plismona a disgyblu cyrff ymhlith dynion; felly hefyd, sut mae hynny, yn ei dro, wedi cynyddu agweddau niweidiol tuag at ferched o du'r *manosphere.* Bydd y broses hon yn mynd y tu hwnt i fframwaith Raewyn (R. W.) Connell o gymdeithasolrwydd a gwrywdod, gan arwain at ffurf newydd ar hunan-lunio sy'n seiliedig ar ddisgyblaeth gorfforol, sydd hefyd yn foesol ac yn esthetig.

Bydd y papur yn dwyn sylw penodol at yr elfen gynyddol nodweddiadol lle y mae rhai crëwyr cynnwys yn cyfuno delweddau crefyddol a naratifau Cristnogol â chynnwys ffitrwydd a chorff-lunio er mwyn denu cynulleidfaoedd, gan ymestyn ethos y 'Gristnogaeth Gyhyrol' drwy gyfryngau digidol cyfoes. Drwy gymharu'r arferion hyn â'r traddodiad Protestannaidd Americanaidd o efengylu ac 'achub' eneidiau, dadleuir bod cynnwys o'r fath yn gweithredu fel dull seciwlar ond sanctaidd ei naws o ehangu dylanwad - sy'n marchnata ideoleg hunan-wella, sefydlogrwydd, a rheolaeth bersonol mewn oes o ansicrwydd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd.

## Maisie Edwards

**Gofal Iechyd, Prifysgol Abertawe** | [1908235@abertawe.ac.uk](mailto:1908235@abertawe.ac.uk) | LinkedIn | @welshandhealth1

Mae Maisie yn fyfyrwraig PhD ym Mhrifysgol Abertawe ac yn wreiddiol o Gasnewydd. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn gofal iechyd, taith a ddechreuodd yn ystod ei hastudiaethau israddedig ac a barhaodd drwy ei gradd Meistr. Mae wedi cyflwyno ei gwaith mewn cynadleddau ar ieithoedd lleiafrifol

ac mewn cynadleddau ar iechyd a gofal gwledig, ac yn ddiweddar cyflwynodd boster ar yr ymchwil hon yn Sweden. Cyhoeddodd y tîm ymchwil bapur yn archwilio profiad cleifion o ddwyieithrwydd mewn gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chydweithiodd ag ymchwilwyr yng Ngwlad y Basg, lle y cafodd y gwaith ei gynnwys mewn llyfr rhyngwladol.

**Hawl i farw yn y Gymraeg**

Mae iaith yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gofal lliniarol holistaidd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. I siaradwyr Cymraeg, gall y cyfle i gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol fod yn arbennig o bwysig yn ystod gofal diwedd oes, pan fydd anghenion emosiynol a materion iechyd cymhleth yn dwysáu. Archwilia’r astudiaeth hon bwysigrwydd y Gymraeg mewn lleoliadau gofal lliniarol, gan anelu at amlygu rôl ieithoedd lleiafrifol wrth gefnogi gofal o’r ansawdd gorau ar ddiwedd oes.

Rydym wedi recriwtio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru i gwblhau arolwg sy’n archwilio eu profiadau a’u barn ar ddefnydd iaith mewn gofal lliniarol. Casglwyd 99 o ymatebion i’r arolwg, a chynhaliwyd 6 chyfweliad lled-strwythuredig dilynol.

Awgryma’r canfyddiadau fod dewis iaith yn effeithio’n sylweddol ar gysur, ymddiriedaeth ac ymgysylltiad cleifion â darparwyr gofal. Noda’r themâu bod cynnig gofal lliniarol yn y Gymraeg nid yn unig yn fater o gyfathrebu ond yn fater o les emosiynol, urddas ac yn angenrheidiol mewn rhai achosion. Tynna’r cyfranogwyr sylw hefyd at heriau, megis y ffaith nad yw staff sy’n siarad Cymraeg wastad ar gael a’r angen am gefnogaeth sefydliadol i hwyluso gofal dwyieithog.

Ceisia’r ymchwil hon fynd i’r afael â’r bwlch yn y dystiolaeth sy’n ymwneud â’r defnydd o ieithoedd lleiafrifol mewn gofal lliniarol a llywio polisi a hyfforddiant yn y dyfodol. Wrth ganolbwyntio ar y Gymraeg yng nghyd-destun Cymru, anelwn at amlygu pwysigrwydd cenedlaethol gofal sy’n briodol yn ddiwylliannol

ac yn ieithyddol, yn ogystal â'r berthnasedd ehangach i gyd-destunau ieithoedd lleiafrifol eraill. Tanlinella'r canfyddiadau hyn yr angen i flaenoriaethu dewis iaith mewn gofal lliniarol, gan ei gydnabod fel cyfle olaf i systemau iechyd ddarparu gofal gwirioneddol holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Cerys Reynolds

**Addysg, Prifysgol Met Caerdydd** | st20155212@outlook.cardiffmet.ac.uk

Mae Cerys Marie Reynolds yn fyfyrwraig PhD yn ei thrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae ei hastudiaethau yn archwilio llesiant emosiynol disgyblion blwyddyn 9 a 10 gyda'r nod o ddatblygu adnodd mesur a dull hunanasesu newydd i asesu lles pobl ifanc 14–16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ei gwaith yn cael ei yrru gan ymrwymiad ac awydd i wella cyfleoedd ac adnoddau yn y Gymraeg i bob disgybl fel nad oes yr un disgybl dan anfantais.

### Datblygu adnodd mesur a dull gweithredu newydd o hunanasesu lles pobl ifanc yn eu harddegau (14–16 oed).

Mae iechyd meddwl a lles (IMaLl) gwael yn ein hysgolion yn achos pryder ledled y byd (World Health Organization (WHO 2022). Mae WHO (2009) yn cydnabod bod mwy nag 1 biliwn o bobl yn byw gydag anhwylderau IMaLl (WHO 2025).

Yn ôl ystadegau Cymdeithas y Plant (2015), mae 12% o blant oedran cynradd yn profi lefelau lles isel yn y Deyrnas Unedig. Cofnododd Clarke et al. (2021) gynnydd o 5% mewn cyflyrau iechyd meddwl a adroddwyd mewn pobl ifanc rhwng 2017 a 2020.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys maes dysgu a phrofiad sy'n cynnwys iechyd a lles yn elfen addysgol hanfodol i bob dysgwr o 3 i 19 oed (Donaldson 2015). Disgwylir i ysgolion ystyried anghenion lles emosiynol a chorfforol pobl ifanc yn rheolaidd yn rhan o strwythur ysgol gyfan o gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol (Llywodraeth Cymru 2021).

Mae'r Gymraeg yn rhan o'n hunaniaeth fel gwlad, cenedl a phobl (Llywodraeth Cymru 2017). Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith fel rhan o nodau lles y wlad (Llywodraeth Cymru 2017). Fodd bynnag, noda Packer, Pierce a Salter (2023) fod nifer cynyddol o heriau yn deillio o ddiffyg adnoddau addysgol sydd ar gael i ysgolion er mwyn iddynt gefnogi dysgwyr gyda'u IMaLl.

O ganlyniad, bwriad y gwaith ymchwil a ffocws y cyflwyniad hwn yw datblygu adnodd mesur a dull hunanasesu newydd er mwyn asesu lles pobl ifanc (14–16 oed) trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r gobaith o gynyddu'r nifer o adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac i anrhydeddu statws deuol y Gymraeg a'r Saesneg fel dwy iaith swyddogol Cymru.

Nodau'r prosiect cyfan yw:

i. Nodi'r cydrannau sydd eu hangen er mwyn datblygu adnodd hunanasesu ar gyfer IMaLl ar gyfer disgyblion blwyddyn 9–10.
ii. Asesu dibynadwyedd a dilysrwydd yr adnodd gydag amrywiaeth o ddysgwyr.
iii. Gwerthuso effeithiolrwydd yr adnodd i gefnogi dysgwyr.

## Ellis Evan Jones

**Biofeddygaeth, Prifysgol Caerdydd** | JonesEE2@caerdydd.ac.uk | LinkedIn | Gwefan

Mae Ellis Evan Jones yn ymchwilydd PhD yn ei drydedd flwyddyn ym maes Bioleg Foleciwlaidd, dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae'n perthyn i'r Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau. Mae ei waith yn mynd i'r afael â'r rhyngweithiadau rhwng biofoleciwlau a'r ensym allweddol Seramidas Asid, sy'n ganolog i batholeg clefydau niwroddirywiol prin. Cyfranna ei ganfyddiadau at brosiect ehangach y sefydliad, sy'n ceisio targedu Seramidas Asid gyda chyffuriau newydd er mwyn cynnig triniaeth i gleifion. Mae Evan hefyd yn ymddiddori ym mioleg y gell. Ymddiddora hefyd yn y

broses o dreialu cyffuriau ac ymchwil trosiannol sy'n dod â chyffuriau o fainc y labordy at wely'r claf.

**Canfod effaith ïonau metel trwm ar ensym sy'n gysylltiedig â Chlefydau Storio Lysosomal prin**

Mae clefydau storio lysosomal yn deulu o dros 70 o anhwylderau metabolaidd etifeddol sydd â symptomau difrifol iawn. Achos y clefydau hyn yw diffygion o fewn strwythurau mewngellol o'r enw lysosomau. Mae'r lysosomau hyn yn cynnwys ensymau, sef biofoleciwlau sy'n treulio deunyddiau gwastraff er mwyn ffurfio cynnyrch defnyddiol. Yna, caiff y cynnyrch ei ailgylchu trwy gludiant o'r lysosom gan wneud y strwythurau hyn yn allweddol ar gyfer cynnal gweithredoedd cellol.

Fodd bynnag, mewn lysosomau cleifion a effeithir gan glefyd, mae ganddynt ensymau diffygiol a olyga fod y deunydd y maent fel arfer yn ei dreulio yn cronni gan achosi niwed i'w celloedd. O fewn sawl clefyd storio lysosomal, tybir bod crynodiadau uwch o ïonau metel trwm yn anactifadu ensymau lysosomal.

Prif nod y papur hwn oedd cynnal prawf i fesur actifedd yr ensym Seramidas Asid ym mhresenoldeb crynodiadau uwch o ïonau metel trwm sy'n efelychu'r amodau oddi mewn i lysosomau dioddefwyr clefyd. Ychwanegom amrediad o grynodiadau ar gyfer 12 metel gwahanol i gymysgedd adwaith yn cynnwys Seramidas Asid. Yna, defnyddiwyd dull a ddisgrifiwyd gan Bedia C et al. (2010) sy'n seiliedig ar fesur fflworoleuedd a gynhyrchir gan weithred Seramidas Asid. Cynhyrchai hyn ddarlleniad rhifol ar gyfer gweithgaredd yr ensym.

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod Seramidas Asid yn cael ei atal gan nifer fwy o ïonau metel trwm sy'n fiolegol berthnasol nag a oedd yn hysbys yn flaenorol, gan gynnwys Haearn (Fe), Cobalt (Co), Copr (Cu) a Manganîs (Mn). Mae dealltwriaeth o rôl ataliol yr ïonau metel hyn yn ystyriaeth allweddol ar gyfer ein hymdrechion i dargedu Seramidas Asid gyda moleciwlau bychain er mwyn trin anhwylderau lysosomal. Bydd gwaith pellach yn sgil yr astudiaeth hon yn

archwilio a yw Seramidas Asid yn cael ei atal mewn anhwylderau niwrolegol eraill a nodweddir gan groniad ïonau metel.

## Ifan Pleming

**Hanes, Prifysgol Bangor** | ie_pleming@hotmail.com | LinkedIn

Yn enedigol o Lithfaen, aeth Ifan i Ysgol Pentreuchaf, Ysgol Glan y Môr a Choleg Meirion Dwyfor, Pwllheli. Astudiodd y Gyfraith a'r Gymraeg ac MA mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae bellach wedi symud yn ôl i Lithfaen ac yn gweithio i Lywodraeth Cymru yng Nghaernarfon. Mae hefyd yn rhoi sgyrsiau hanes yn lleol ar ei faes ymchwil ac wedi rhoi sgwrs i'r British Titanic Society a'r Belfast Titanic Society. Mae wedi cyfrannu at gylchgrawn Hanes Byw, Chyfnodolyn y British Titanic Society, Chymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd a Thrafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon ar agweddau ar ei waith ymchwil.

### Cunard, White Star, y Gymraeg a'r Eisteddfod Genedlaethol: Llygad-wasanaeth yn unig?

Gobeithia'r papur hwn daflu goleuni ar ran o ddiwylliant Cymru nad yw wedi cael sylw dros y blynyddoedd, sef y berthynas rhwng y cwmnïau llongau mawr ar droad y ganrif ddiwethaf, yn benodol y Cunard Line â'r White Star Line, a Chymru a'i diwylliant. Bydd yn edrych ar y modd y mae'r Cymry sydd wedi ymfudo wedi creu cymaint o fwrlwm a busnes i'r cwmnïau hyn fel bod y cwmnïau eu hunain maes o law wedi cymryd sylw o'r gwahaniaeth diwylliannol sy'n perthyn i'r Cymry. Nid yn unig yr oeddent yn hysbysebu ac yn gohebu yn Gymraeg, ond byddent yn helpu i gynnal Eisteddfodau ar y Môr i Gymry America a fyddai'n dod drosodd i'r Eisteddfod. Ar un wedd, mae hyn yn edrych fel llygad-wasanaeth, ond erbyn 1926, ganrif yn ôl, mae'r modd y mae'r cwmnïau hyn yn trin y Gymraeg a'i diwylliant ychydig yn gryfach na'r hyn a ddisgwylir gan gwmnïau mawr cyffelyb. Mae hyn yn raddol gynyddu dros flynyddoedd, gan gyrraedd penllanw wrth gyhwfan baner Cymru ar yr Iwerydd. Yn ogystal, roeddent yn gwneud

bwydlenni a deunydd ar y teithiau hyn yn Gymraeg. Enghraifft o hyn yw Mordeithiau'r Urdd yn 1933, 1934, 1935, lle yr oedd y rhan helaeth o'r deunydd a argraffwyd ar y llong, yr RMS Orduna, yn Gymraeg. Roedd y White Star Line a'r Cunard Line wedi gweld ei ffordd yn glir i gyflogi Rheolwyr Adran y Gymraeg i'r ddau gwmni. Roedd yr Eisteddfod hithau yn diolch i swyddogion Cunard am eu cyfraniad trwy eu hurddo i'r orsedd, bendithio'r llongau yn Gymraeg, a chyhwfan baner y Scythia, llong yr Eisteddfod, uwchben y pafiliwn gydol yr ŵyl. Roedd y ddau gwmni hefyd yn rhoi nawdd i'r Eisteddfod, gan noddi o leiaf dwy goron a chadair. Roeddent hefyd yn cefnogi Eisteddfodau lleol.

## Dr Jonathan Ervine

**Ieithoedd Modern, Prifysgol Bangor** | j.ervine@bangor.ac.uk | LinkedIn | @J_Ervine

Mae Jonathan yn uwch-ddarlithydd mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Bangor a bu ei ymchwil yn canolbwyntio ar agweddau ar y Ffrainc gyfoes, fel sinema a hunaniaeth, dadleuon am hiwmor, a phwysigrwydd chwaraeon yng nghymdeithas Ffrainc. Yn 2025, cyhoeddodd lyfr am sinema, chwaraeon a hunaniaethau gwrywaidd (*French Sports Films: Visions of Masculinity*). Eleni, cyhoeddodd erthygl a ysgrifennodd ar y cyd â Paddy Hoey (Prifysgol Liverpool John Moores) o'r enw 'Negotiating Breton Celtic identity on and off the pitch: contemporary football in Brittany' sydd wedi ysbrydoli'r papur hwn.

### Hunaniaeth Geltaidd ym mhêl-droed Llydaw: tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng Llydaw a Chymru

*Bro Gozh ma Zadoù* – sy'n golygu Hen Wlad Fy Nhadau – yw anthem answyddogol Llydaw, sydd yn creu cysylltiad rhwng rhanbarth Celtaidd yn Ffrainc a Chymru. Ond yn y byd pêl-droed yn Llydaw, a ydyn ni'n gweld mwy o gysylltiadau rhwng Llydaw a Chymru?

Yn dilyn ymchwil i hunaniaeth Geltaidd a phêl-droed yn Llydaw, bwriad y papur hwn yw dangos bod cysylltiadau clir rhwng diwylliant chwaraeon yn Llydaw ac yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r geiriau yng nghân enwog Dafydd Iwan 'Yma o Hyd' yn debyg iawn i ddisgrifiadau hanesyddol o athletwyr o Lydaw.

Ar ôl trafod gwreiddiau pêl-droed yn Llydaw, bydd y papur yn awgrymu nad yw absenoldeb tîm cenedlaethol swyddogol yn Llydaw wedi atal creu symbolau Celtaidd yn y byd pêl-droed yno, megis ar grysau, mewn stadiymau ac ar-lein.

Wrth gloi, bydd y papur hwn yn dangos nad yw heriau economaidd a diwylliannol wedi atal clybiau pêl-droed yn
Llydaw rhag gwrthsefyll y duedd yn Ffrainc i ganoli Paris, a all gael effaith negydd ol ar wahaniaethau ac ieithoedd rhanbarthol.

Er hynny, mae angen hefyd ystyried her enfawr i glybiau pêl-droed yn Llydaw: sut i gynnal hunaniaeth Geltaidd benodol yn ystod cyfnod lle y mae buddsoddwyr rhyngwladol yn chwarae rhan allweddol, a nifer cynyddol o glybiau'n dod yn rhan o rwydweithiau aml-glwb.

## Beca Wyn Owen

**Cymdeithaseg, Prifysgol Bangor** | bcw21dyj@bangor.ac.uk | LinkedIn

Mae Beca Owen yn fyfyriwr PhD yn ei hail flwyddyn ym maes Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor, dan oruchwyliaeth Dr Cynog Prys, Dr Rhian Hodges a Dewi Jones. Mae ei hymchwil, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn canolbwyntio ar rôl deallusrwydd artiffisial yn y system addysg Gymraeg a ddwyieithog yng Nghymru. Mae'r prosiect yn dechrau drwy archwilio'r pwnc o fywiogrwydd ieithyddol digidol yn oes deallusrwydd artiffisial, gan adlewyrchu diddordeb cryf yn y berthynas rhwng ieithoedd lleiafrifol a datblygiadau technolegol mewn cyd-destunau cymdeithasol.

**Bywiogrwydd Ieithyddol yn yr Oes Ddigidol: Rôl Deallusrwydd Artiffisial ac Addysg**

Mae'r gwaith hwn yn archwilio'r berthynas rhwng deallusrwydd artiffisial ac ieithoedd lleiafrifol yn y system addysg. Nod yr ymchwil hon yw cynnal astudiaeth i'r modd y mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio yn y system addysg Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru a thu hwnt. Er bod technolegau DA yn cynnig cyfleoedd aruthrol ar gyfer adfywio ieithyddol, maent hefyd yn cyflwyno nifer o heriau a rhwystrau. Mae'r ymchwil yn ymgorffori adolygiad llenyddol ar gysyniadau fel 'bywiogrwydd ieithyddol digidol', gan nodi bylchau yn yr ymchwil ar hyn o bryd. Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at yr heriau penodol sy'n wynebu ieithoedd lleiafrifol wrth weithredu technolegau deallusrwydd artiffisial, a thrafodir strategaethau posibl i oresgyn y rhwystrau hyn, gan gynnwys datblygiad polisïau iaith ddigidol sy'n ystyried anghenion cymunedau iaith leiafrifol. Yn rhan o'r dadansoddiad hwn, bydd yr astudiaeth yn ystyried gwaith Rehm & Way (2023), sy'n mapio sefyllfa a gallu technolegol ieithoedd Ewrop ar draws ystod o dechnolegau iaith. Bydd edrych ar yr astudiaeth hon yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer yr ieithoedd lleiafrifol, gan gynnwys y Gymraeg, ac felly'n helpu deall pa gefnogaeth bellach sydd ei hangen ar yr ieithoedd hyn. Yn ogystal, bydd trafodaeth ar ganlyniadau'r ymchwil gynradd, sef cyfweliadau lled-strwythuredig gyda datblygwyr technoleg a llunwyr polisi ar hyd tri cyd-destun ieithyddol gwahanol, sef Cymraeg, Ffriseg a Basgeg. Mae'r themâu yn amrywio o heriau a manteision y technolegau hyn, rôl polisi a chwmnïau, i ragfynegiadau o ddyfodol y technolegau mewn addysg.

## Posteri ymchwil

Caiff y posteri ymchwil eu harddangos yn Ystafell y Cyngor yn ystod amser cinio ar y dydd Gwener, a byddant hefyd i'w gweld ar Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg.

**Dr Awel Vaughan-Evans**

Darlithydd Seicoleg, Prifysgol Bangor, a.vaughan-evans@bangor.ac.uk

'Iaith, emosiwn, a thuedd: ymchwilio effaith y 'dioddefwr emosiynol' mewn unigolion dwyieithog'

**Beth Jones**

Myfyriwr PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg

Hanes, Prifysgol Bangor, btj20zyk@bangor.ac.uk

'Darganfod hanes pêl-droed Gogledd Cymru: y berthynas ddiwydiannol'

**Carwyn Owen**

Myfyriwr BA, Hanes, Prifysgol Caerdydd, OwenC23@caerdydd.ac.uk

'Hanes Cymru a'r Eisteddfod yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg'

**Emily-Louise Beech**

Myfyriwr PhD, Ieithyddiaeth, Prifysgol Bangor, LinkedIn

'Rôl y Gymraeg mewn mentrau gweithredu cymunedol ac ymgysylltu cymunedol'

**Ffion Roberts**

Myfyriwr PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg

Meddygaeth, Prifysgol Abertawe, 867707@abertawe.ac.uk

‘Datblygu model niwronaidd newydd ar gyfer trin dementia’

**Gwenno Rowlands**

Myfyriwr PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg

Cemeg, Prifysgol Caerdydd

‘Datblygu atalyddion anghofalent seramidas asid’

**Joshua Cedri Wynne**

Myfyriwr PhD, Ffiseg, Prifysgol Aberystwyth, jow137@aber.ac.uk

‘Effaith maint a chemeg arwyneb ar lwytho cyffur cemotherapi ar nanodiamwntau’

**Mared Lloyd**

Myfyriwr MSci, Bioleg Morol, Prifysgol Bangor, mared@mansant.com

‘Adnabod dangosyddion gwydnwch ecolegol mewn cymunedau pysgod riffiau cwrel yng Ngorllewin Cefnfor India’

**Mike Morris**

Myfyriwr MSc, Chwaraeon, Prifysgol Bangor, mkm21gjd@bangor.ac.uk

‘Effeithiau oedran cymharol mewn athletwyr e-chwaraeon yng Nghymru’

**Nia Teifi Rees**

Myfyriwr PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg

Seicoleg, Prifysgol Aberystwyth, nir37@aber.ac.uk

‘Rhwng dwy iaith: effaith iaith gyntaf ac ail iaith ar ragdueddiad i dwyll ar-lein’

**Niamh McNally**

Myfyriwr PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg

Troseddeg, Prifysgol Aberystwyth, nmm14@aber.ac.uk

‘Arsylwi trychineb Aberfan a thipiau glo yng Nghymru trwy lens droseddol werdd’

**Olivia Bear**

Myfyriwr PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg

Chwaraeon, Prifysgol Met Caerdydd, st20172207@outlook.cardiffmet.ac.uk

‘Twristiaeth chwaraeon antur yng Nghymru: asesu rôl, effaith a dylanwad yr iaith Gymraeg’

**Cliciwch yma i gofrestru**